



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Astudiaeth Achos 4: Dod â'r gymuned ynghyd drwy Doethineb Gwledig - Caffi Cymunedol Coed-llai Ionawr 2020



Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Helpodd y problemau hyn i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu un enghraifft o beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yng Nghoed-llai, gogledd Cymru.

"Roeddem wedi bod yn siarad am geisio agor caffi ein hunain am rai blynyddoedd ond roeddem yn teimlo ei fod yn ormod i ni ei wneud ar ein pen ein hunain."

(Preswlydd lleol)

Bob bore lau, mae Canolfan Gymunedol Coed-llai yn agor ei drysau ac yn gwahodd preswylwyr lleol i ddod yno am baned o de, tafell o dost a sgwrs gyfeillgar. Dechreuodd y Caffi Cymunedol, neu '**Caffi Sunshine**', fel yr enwyd gan blant ysgol lleol, dros flwyddyn yn ôl mewn ymateb i bobl hŷn yn amlygu'r angen am rywbeth a oedd yn cynnwys y gymuned gyfan. Drwy Doethineb Gwledig, mae'r Gweithiwr Datblygu wedi bod yn gatalydd ac yn gydlynnydd ar gyfer sefydlu'r caffi. Mae wedi darparu cyfle y gwnaeth pobl mewn eglwys leol ei adnabod o'r blaen fel angen.

Yn ogystal â darparu lleoliad i bobl rannu jôc gyda ffrindiau, mwynhau paned fforddiadwy o goffi, neu ddarganfod beth sy'n digwydd yn lleol, mae'r caffi hefyd yn enghraifft o sut y gall pobl hŷn gyfrannu at y newid y maent yn dymuno ei weld mewn cymunedau gwledig.

O'r cychwyn cyntaf, mae gwirfoddolwyr, dros 8 penwythnos, wedi helpu i addurno'r ystafell i'w pharatoi ar gyfer ei hagor; maent wedi ymuno â Grŵp Llywio sy'n Ystyriol o Oed y caffi ac wedi ymrwymo i sefydlu a rhedeg y caffi yn wythnosol.

Mae'r caffi hefyd yn darparu fforwm ar gyfer pobl i gael llais, gan fod cynghorwyr yn mynychu i sgwrsio â phreswylwyr lleol a darganfod beth yw'r problemau sydd gan bobl.



Dod â'r gymuned ynghyd drwy Doethineb Gwledig - Canolbwynt ar gyfer gwybodaetha dysgu

Yn fuan ar ôl agor, eglurodd gwirfoddolwyr y caffi ei fod yn cynnig rhywbeth a oedd yn rhyng-genedlaethol. Roeddent wedi cael rhiant gyda babi 3 diwrnod oed yn dod i mewn a chwsmeriaid a oedd yn hŷn na 90 mlwydd oed. Roedd teimlad ei fod wedi dod yn rhan o drefn arferol pobl i ddod i mewn i'r caffi.

"Wrth i bobl adael, maent yn dweud 'fe welaf i chi'r wythnos nesaf'."

Blwyddyn yn ddiweddarach, mae pobl sydd ynghlwm â'r caffi yn dal i'w ganmol:

"Mae'r caffi wedi gwneud gwahaniaeth mawr."

Mae newid amlwg yn yr ystod o gwsmeriaid sy'n ymweld. Am amser hir, nid oeddent yn gweld llawer o rieni ifanc gyda phlant bach, ond maent wedi dechrau dod nawr. Lle'r oedd rhai pobl hŷn yn credu bod diffyg gweithgareddau ar gyfer dynion yn y gymuned, mae'r caffi cymunedol yn cynnig lleoliad iddynt ddod ynghyd ac mae'n gwneud gwahaniaeth:

"Mae'r tri dyn sy'n dod i mewn gyda'i gilydd, yn cyfarfod yn y caffi ac mae pob un yn cael coffi, te a thost. Maent yn cymryd eu tro i dalu, mae un yn talu un wythnos, ac un arall yn talu'r wythnos wedyn, ac yn y blaen. Dywedodd un ohonynt wrthyf yr wythnos ddiwethaf: "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddod yma, rwy'n edrych ymlaen at foreau lau, mae'n rhan fawr o fy wythnos".

Yn ogystal â chynnig lle cymdeithasol, mae'r Gweithiwr Datblygu wedi gwahodd sefydliadau lleol i'r caffi cymunedol i ddarparu gwybodaeth am eu gwasanaethau ac i gysylltu â phobl leol.

Mae hefyd wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer dysgu a datblygu, er enghraifft cynhaliodd coleg lleol gwrs 10 wythnos yno i addysgu pobl, o bob oed, sut i ddefnyddio llechen gyfrifiadurol. O ganlyniad, mae menyw bellach yn siarad dros Skype gyda'i hwyrion yn Awstralia. Cysylltodd rhywun a oedd yn arfer byw yn y pentref â'r Gweithiwr Datblygu a chynnig addysgu Cymraeg i unrhyw un a oedd yn dymuno. Maent hefyd yn cynnal arwerthiannau llyfrau yn rheolaidd. Mae preswylwyr yn teimlo na fyddai hyn wedi digwydd pe na baent wedi sefydlu'r rhan honno o'r ganolfan gymunedol yn gaffi.



Cylchlythyr lleol yn dathlu pen-blwydd cyntaf y caffi

Mae'r dyfodol yn ddisglair



Llun o'r hysbysfwrdd yng Nghaffi Sunshine.

Mae Caffi Sunshine hefyd yn rhywle y gall pobl ddod i wybod am beth sydd ymlaen, naill ai drwy eu hysbysfwrdd neu ar lafar. Eglura un preswlydd:

"Mae pawb yn dweud ei fod fel rhwydwaith bach. Roedd pobl yn eistedd wrth y bwrdd mawr heddiw, nad oedd yn gwybod bod arwerthiant llyfrau ymlaen ddydd Sadwrn. Erbyn hyn, maent yn ymwybodol. Dyna'r math o gyd-gysylltu a gewch... Yn wir, efallai fod hysbysiad i fyny yn rhywle, ond nid ydynt wedi gweld yr hysbysiad."

Gyda'r Gweithiwr Datblygu yn symud i weithio mewn cymuned newydd yng ngogledd Cymru, mae'r cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd yn codi. Fodd bynnag, i bobl Coed-llai, nid oes amheuaeth am hynny. Mae sicrwydd y bydd y caiff yn parhau.

Mae ymdeimlad y bydd pobl yn ymdrechu er mwyn y caffi, gan ei fod wedi bod mor llwyddiannus a phleserus. Mae'r ffaith bod y seilwaith a'r llywodraethiant yn dod o dan gyfrifoldeb y Grŵp Llywio Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed, hefyd yn darparu sicrwydd. Drwy'r gwirfoddolwyr mae cysylltiad cryf rhwng y Capel a'r caffi, ac er nad yw llawer eisiau ymrwmo i roi eu henw ar y rota, byddant yn aml yn troi i fyny ac yn gofyn a oes eu hangen ac yn aros os bydd galw. Yn ariannol, mae llun o gwsmeriaid sy'n talu bob wythnos yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol a hyd yn oed yn darparu incwm ychwanegol, a all ariannu gwaith parhaus gyda'r ysgol a ddechreuwyd drwy Doethineb Gwledig.

Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ac adnoddau yn: www.ruralwisdom.org

Astudiaethau achos eraill o Doethineb Gwledig:

1. 'What's On' (Aberdaugleddau)
2. Grŵp Trafnidiaeth (Ucheldir Swydd Perth)
3. Gwaith Rhyng-genedlaethol (Eaglesham)
4. Caffi Cymunedol (Coed-llai)
5. Grŵp Canu (Brechin)

Darllen mwy yma:

www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation

Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford

Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn) E-bost: Carol.Clifford@ndti.org.uk

Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)

Llawr Cyntaf

30-32 Westgate Buildings

Caerfaddon BA1 1EF

www.ndti.org.uk

